**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Lesley Griffiths AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1 Mehefin 2012

Annwyl Lesley

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: craffu ariannol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

Ym mis Hydref 2011, gwnaethom ystyried cyllideb ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2012-13. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor ei fod am gynyddu ei weithgarwch craffu ariannol yn ystod y Cynulliad hwn. Fel y gwyddoch, mae rhywfaint o waith craffu ariannol eisoes wedi mynd rhagddo yn ein sesiynau craffu cyffredinol gyda chi a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ein nod yw parhau â'r gwaith hwn fel rhan o'n rhaglen craffu ar bolisi, deddfwriaeth a chyllideb yn y dyfodol.

Er mwyn llywio ein trafodaethau ar faterion ariannol yn well yn y dyfodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru rannu rhywfaint o wybodaeth ariannol ychwanegol â'r Pwyllgor. Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i gael dealltwriaeth ddigonol o sefyllfa ariannol y GIG yng Nghymru, sy'n ddisgwyliedig ohonom, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod:

- pa drefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle ar gyfer monitro sefyllfa ariannol byrddau iechyd Cymru yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwybodaeth am eu perfformiad yn erbyn eu cynlluniau ariannol a thargedau arbed; ac
- a fyddech yn fodlon rhannu'r wybodaeth honno â'r Pwyllgor yn rheolaidd.

Credwn y bydd y wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod ein hystyriaethau yn wybodus a chywir.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Er gwybodaeth, rwyf hefyd wedi ysgrifennu at bob Bwrdd Iechyd Lleol heddiw i ofyn am wybodaeth i helpu fel sail i'n gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn. Rwyf wedi atodi copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC**
Cadeirydd